

## Disgrifiad Swydd: Cadeirydd

Mae swydd y Cadeirydd yn un hanfodol mewn unrhyw sefydliad, ac mae hynny'n sicr o fewn unrhyw glwb chwaraeon. Dyma'r swydd sydd wrth wraidd y clwb ac sy'n llywio cynnydd y clwb ar gyfer y dyfodol.

### Sut byddwch chi'n elwa o'r swydd?

- Ymdeimlad o hunan gyflawniad a rhoi yn ôl i'r gymuned
- Swydd allweddol yn eich cymuned
- Cwrdd â llawer o bobl o wahanol gefndiroedd
- Cyfle i ddatblygu sgiliau
- Datblygiad gyrfa posibl / cyflogadwyedd gwell
- Potensial i dderbyn hyfforddiant ac ennill cymwysterau newydd

### I bwy y byddaf i'n atebol?

- Pwyllgor y Clwb

### Pwy fydd yn atebol i mi?

- Holl aelodau'r pwyllgor

### Yn ddelfrydol, bydd angen i chi:

- Bod yn arweinydd cadarn a all fod yn wrthrychol
- Bod yn hyderus ac yn gyfathrebwr da; a gallu i gynrychioli'r clwb mewn cyfarfodydd allanol
- Sicrhau bod cyfarfodydd yn cael eu cynnal mewn modd rhwydd ac effeithlon
- Bod yn hawdd mynd ato â sgiliau gwrando da
- Bod yn drefnus ac yn hapus i ddirprwyo
- Bod yn frwdfrydig a chymhellol

### Yr hyn y byddwch chi'n ei wneud:

- Cadeirio cyfarfodydd y Pwyllgor a'r Cyfarfodydd Cyffredinol Blyneddol
- Cynnal materion cyffredinol y clwb
- Arwain y pwyllgor wrth wneud penderfyniadau er budd y clwb cyfan, gan gynnwys materion disgyblu
- Cynrychioli safbwynt diduedd gan ganiatáu i drafodaeth rydd ddigwydd
- Gwneud penderfyniadau terfynol ynghylch unrhyw faterion y clwb sydd heb eu datrys
- Cynorthwyo Ysgrifennydd y Clwb i baratoi agendâu
- Cynrychioli'r clwb mewn cyfarfodydd allanol, pan fo angen
- Rheoli a goruchwylio gwaith swyddogion a phersonél eraill y clwb
- Cyflwyno adroddiad blyneddol y clwb yn y cyfarfod cyffredinol blyneddol

### Faint o amser y bydd yn ei gymryd?

- Tua phum awr y mis ar gyfer cyfarfodydd, er y bydd hyn yn dibynnu ar natur eich clwb/sefydliad chwaraeon.

### Hoffech chi ragor o wybodaeth? Croeso ichi gysylltu â:

*(Rhowch fanylion cyswllt pwy bynnag sy'n arwain ar recriwtio'r Cadeirydd)*